

Safonau'r Gymraeg – Adroddiad Monitro Blynyddol 2020-2021

Crynodeb Gweithredol

Ar 1 Ebrill 2018, o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, daeth Safonau'r Gymraeg i rym, gan ddisodli cynllun iaith blaenorol y Brifysgol. Cafodd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru, a Chomisiynydd y Gymraeg sy'n eu rheoleiddio. Prif nod y rheoliadau yw sicrhau nad yw sefydliadau addysg uwch yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan bwysleisio cynnig yn rhagweithiol a chofnodi'r dewis iaith yn hytrach na gadael i fyfyrwr, aelod o'r cyhoedd neu weithiwr ofyn am wybodaeth neu wasanaethau yn Gymraeg.

Mae gan bob Prifysgol ddyletswydd i gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n manylu ar yr wybodaeth ganlynol:

Cydymffurfio cyffredinol	Sut rydym wedi cydymffurfio â'r safonau yr oedd dyletswydd arnom eu cyflawni'r flwyddyn honno (yn ôl dosbarth y safon – cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu).
Cwynion	Nifer y cwynion a gafwyd (yn ôl dosbarth y safon – cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu).
Sgiliau'r gweithlu	Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw.
Cyrsiau hyfforddiant	Nifer yr aelodau o staff (a'r ganran) a fynychodd gyrsiau hyfforddiant a gynigiwyd gennym yn Gymraeg.
Swyddi a hysbysebwyd	Nifer y swyddi gwag y gwnaethom eu hysbysebu yn ystod y flwyddyn a oedd wedi'u categorio gyda gwahanol ofynion o ran sgiliau Cymraeg.

Yn unol â gofynion y Safonau, mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 1 Awst 2020 a 31 Gorffennaf 2021 (a elwir y cyfnod adrodd yn yr adroddiad hwn). Mae rhagor o wybodaeth am sut mae'r Brifysgol yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ar gael ar ein [gwefan](#). Mae hyn yn cynnwys adran am yr hyn y gall siaradwyr Cymraeg ei ddisgwyl gan y Brifysgol.

Effaith pandemig COVID ar allu'r Brifysgol i gydymffurfio â'r Safonau

Yn ystod 2020-21, mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar allu'r Brifysgol i barhau â'i busnes o ddydd i ddydd. Ar ddechrau'r pandemig, sefydlodd yr Is-Ganghellor dasglu i oruchwylio pob agwedd ar ailagor y Brifysgol, a'i busnes o ddydd i ddydd yn ystod argyfwng y coronafeirws (COVID-19).

Ar ddechrau'r pandemig, fe wnaeth y tasglu gydnabod y gallai'r pandemig gael effaith anghymesur ar grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig yn ogystal â grwpiau fel y rheini sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu sy'n dymuno defnyddio ein gwasanaethau Cymraeg. Cefnogodd y tasglu ddull sefydliadol o gwblhau Asesiadau Effaith Iaith Gymraeg ar benderfyniadau polisi a phrosesu penderfyniadau sy'n cael eu gwneud am ein gwasanaethau a'n strategaethau mewn ymateb i'r pandemig. Yn ogystal â sicrhau ein bod yn bodloni ein dyletswydd gyfreithiol i gynnal asesiadau, mae hyn wedi golygu eu bod yn cael effaith yn y byd go iawn, a bod yr asesiadau yn cael eu cynnal gan uwch-swyddogion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r grwpiau sy'n gwneud penderfyniadau a sefydlwyd mewn ymateb i'r pandemig. Mae hyn wedi sicrhau bod camau yn cael eu cymryd pan nodir problem ond hefyd bod grwpiau yn gallu nodi materion sy'n gyffredin ar draws meysydd gwahanol y Brifysgol. Mae cronfa ddata Asesu Effaith wedi'i sefydlu i sicrhau bod swyddogion yn gallu cael mynediad at asesiadau sy'n bodoli eisoes. Mae hyn yn sicrhau bod materion a chamau lliniaru sydd wedi'u sefydlu a'u datrys yn barod, yn cael eu codi'n gyflym mewn cyfarfodydd neu mewn asesiadau diweddarach/parhaus.

I ryw raddau, yn rhan olaf 2021, dychwelodd llawer o wasanaethau'r Brifysgol i 'Fusnes fel Arfer' gyda'r campws ar agor eto i weithgareddau dysgu/addysgu (gyda chyfyngiadau perthnasol ar waith).

Cydymffurfio Cyffredinol

Mae'r adran hon yn amlinellu sut mae'r Brifysgol yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ôl dosbarth y Safon (Gweithredu/Cyflenwi Gwasanaethau/LLunio Polisi).

Gweithgareddau cyffredinol sy'n helpu'r Brifysgol i gydymffurfio â phob safon.

Hyfforddiant gorfodol

Mae'r Brifysgol wedi creu e-fodiwl Cymraeg y mae'n rhaid i'r holl staff ei gwblhau. Mae'r cyfraddau cwblhau'n cael eu monitro a'u cyflwyno i Ysgolion ac Adrannau bob mis. Ar hyn o bryd mae gan y modiwl hwn gyfradd gwblhau o 51%. Mae'r gyfradd gwblhau hon yn is na'r gyfradd gwblhau ar gyfer y cyfnod adrodd diwethaf (76%) ac felly bydd y Brifysgol yn ceisio cymryd camau i wella'r gyfradd gwblhau dros y cyfnod adrodd nesaf.

Uned Gyfieithu ac adnoddau eraill

Ehangwyd ein huned gyfieithu yn gynharach eleni o ganlyniad i gynnydd sylweddol yn y galw am gyfieithu, yn ogystal ag i arddangos ymrwymiad y Brifysgol i'r Gymraeg. Mae'r uned bellach yn cynnwys 7 aelod o staff — un Pennaeth Uned, pedwar Uwch Gyfieithydd a dau Gyfieithydd. Mae'r Uned wedi creu teclyn ar-lein y mae modd cyflwyno ceisiadau i'w cyfieithu drwyddo. Gall staff sy'n siarad Cymraeg hefyd gyflwyno ceisiadau i'r uned gyfieithu i wirio cywirdeb unrhyw gynnwys Cymraeg. Mae gan y Brifysgol danysgrifiad blynyddol gyda Memsource, pecyn meddalwedd cof gyfieithu sy'n storio'r holl waith gyfieithu er mwyn sicrhau cysondeb ac i gyflymu'r broses o gyfieithu yn y dyfodol pan fydd yr un frawddeg neu derm wedi'u cyfieithu o'r blaen. Caiff pob cais a gyflwynir i'r uned ei wirio gan uwch aelod o'r tîm er mwyn sicrhau cywirdeb mewn perthynas â gramadeg ac ystyr. Mae'r Brifysgol yn cynnig geiriadur electronig Cysgeir a gwirysdd gramadeg a sillafu Cysill i'r holl staff. Mae'r uned yn cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer digwyddiadau staff gan gynnwys seminarau, cyfarfodydd pwyllgor a chyfweliadau. Darperir y gwasanaeth hwn ar gyfer digwyddiadau ar-lein yn ogystal ag ar y campws.

Deon y Gymraeg a chymeradwyo Strategaeth y Gymraeg

Ym mlwyddyn academiaidd 2018/19, llwyddodd y Brifysgol i benodi Deon y Gymraeg sy'n meithrin cyfraniadau unigol a chyfunol at hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg. Mae'r Deon yn gweithredu fel hyrwyddwr proffil uchel ar gyfer anghenion academiaidd ac ehangach myfyrwyr a staff sy'n siarad Cymraeg. Mae ganddo oruchwyliaeth strategol o bortffolio ein darpariaeth Gymraeg, mae'n datblygu polisi ac yn gyfrifol am yrru'r gwaith o gyflawni ein strategaeth Gymraeg. Cyhoeddi ein Strategaeth oedd blaenoriaeth y Deon i ddechrau. Mae bellach wedi'i chymeradwyo ar y lefel uchaf y gwneir penderfyniadau yn y Brifysgol.

Mae'r strategaeth yn ymgorffori llawer o'r gwaith parhaus yn y Brifysgol ar draws yr ystod o weithgareddau Cymraeg. Mae hefyd yn nodi targedau uchelgeisiol fydd yn golygu lluo o addasiadau a diwygiadau sefydliadol. Mae'r gwaith hwn bellach yn dwyn ffrwyth gyda chyflymder ac effeithlonrwydd cynyddol gyda sefydlu'r *Academi Gymraeg* - a fydd yn adeiladu ar y Rhwydwaith Staff Cymraeg sydd eisoes wedi'i sefydlu ac sy'n cynrychioli llais y staff - a phenodiad ei rheolwr, sy'n gweithio'n benodol gyda'r Deon a Swyddog Cangen y

Coleg Cymraeg i sbarduno newid. Blaenoriaethau cychwynnol yr Academi yw gwella cysylltedd a rhannu arfer gorau i wella safonau, ac annog newid diwylliannol cadarnhaol, yn enwedig drwy sefydlu strwythurau gweithredol syml ac effeithlon a lefel ddigonol o graffu ar lefel weithredol. Er bod y strategaeth wedi'i hanelu'n bennaf at wella profiad staff a myfyrwyr, bydd yn golygu bod y Safonau'n cael eu derbyn ymhellach fel llinell sylfaen ar gyfer ein gweithgareddau Cymraeg.

Hyrwyddwyr y Gymraeg

Mae gan y Brifysgol rwydwaith o Hyrwyddwyr y Gymraeg ymhlith y staff. Mae o leiaf un aelod o staff ym mhob Ysgol ac Adran, sydd â'r rôl o gynnig arweiniad ynghylch y Safonau, hyrwyddo arfer da ac adrodd problemau wrth Swyddog y Gymraeg.

Codi ymwybyddiaeth

Mae'r Brifysgol wedi creu a chyhoeddi [fideo](#), sydd ar gael i bawb ond sydd wedi'i anelu'n bennaf at staff, ac sydd wedi helpu i godi ymwybyddiaeth am hawliau Myfyrwyr o dan Safonau'r Gymraeg.

Rydyn ni hefyd wedi cynhyrchu taflen, a ddyluniwyd i gyd-fynd ag ymgyrch codi ymwybyddiaeth Comisiynydd y Gymraeg, #maegenihawl. Mae hon wedi'i rhannu â myfyrwyr mewn digwyddiadau fel wythnos y glas a Diwrnod Shwmae a diwrnod hawliau'r Gymraeg, ac roedd ar gael mewn lleoliadau amlwg ledled y Brifysgol, fel Undeb y Myfyrwyr a'n preswylfeydd myfyrwyr.

Fel rhan o'r gwaith o lansio'r strategaeth newydd, bydd yna weithgareddau hyrwyddo a fydd yn lleoli'r safonau o fewn cyd-destun ehangach ein gweithgareddau Cymraeg ar draws y Brifysgol.

Cynhaliodd Swyddog y Gymraeg yn Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd ymgyrch yn ystod Wythnos y Glas i godi ymwybyddiaeth myfyrwyr o'u hawliau o dan Safonau'r Gymraeg.

Cafodd ffilm, a grëwyd i gyfleu naws bywyd Cymraeg Prifysgol Caerdydd ac ar draws y ddinas, ei rhyddhau yn ystod yr Eisteddfod AmGen ym mis Awst. [Uchelgeisiau Cymraeg cyffredin y Brifysgol yn Eisteddfod AmGen 2021 - Newyddion - Prifysgol Caerdydd \(caerdydd.ac.uk\)](https://www.caerdydd.ac.uk/news/2021/08/20/uchelgeisiau-cymraeg-cyffredin-y-brifysgol-yn-eisteddfod-amgen-2021-newyddion-prifysgol-caerdydd)

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Gellir darllen datganiad o gydymffurfiaeth ffurfiol y Brifysgol â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau yn ein [Polisi Cyflenwi Gwasanaethau Cymraeg](#).

Gohebu â'r Cyhoedd

Mae'r Brifysgol wedi llunio arweiniad i staff ynghylch cyfathrebu'n ddwyieithog, ac mae hwn ar gael ar Fewnrwyd y Staff. Mae ymgyrch gyfathrebu wedi cael ei chynnal drwy gydol y cyfnod adrodd er mwyn codi ymwybyddiaeth y staff o'r arweiniad. Mae'n cynnwys erthyglau rheolaidd i staff, a fideo'n egluro hawliau Myfyrwyr o dan y Safonau. Gofynnir i staff gynnwys llofnod dwyieithog ar waelod pob e-bost.

Mae dewis iaith y myfyrwyr yn cael ei gofnodi wrth iddynt ymrestru ac mae'r wybodaeth hon ar gael yn rhwydd i'r staff sy'n cyfathrebu â nhw.

Ffôn

Crëwyd arweiniad i staff er mwyn helpu'r rhai di-Gymraeg gyda chyfarchion dwyieithog a recordio neges allan-o'r-swyddfa. Mae cardiau post wedi cael eu dylunio ar gyfer y bwrdd gwaith sy'n rhestru cyfarchion defnyddiol wedi'u hysgrifennu'n ffonetig ac mae'r rhain wedi cael eu dosbarthu'n helaeth ledled y Brifysgol.

Cyfarfodydd, Digwyddiadau, Darlithoedd Cyhoeddus a Chyfleoedd i Ddysgu

Crëwyd arweiniad i staff a dogfennau coeden benderfyniadau er mwyn helpu staff i ganfod a oes angen darpariaeth ddwyieithog yn y categorïau hyn. Mae'r Tîm Cydymffurfio a Risg wedi rhoi cyflwyniadau mewn sawl grŵp rhwydwaith staff allweddol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gofynion yn y meysydd hyn.

Mae'r defnydd o gyfieithu ar gyfer cyfarfodydd electronig wedi bod yn arbennig o effeithiol yn ystod y cyfnod o gadw pellter corfforol a ddaeth yn sgil COVID. Llwyddodd tîm cyfieithu'r Brifysgol i ddatblygu gweithdrefn ar gyfer darparu cyfieithu ar y pryd ar-lein yn gyflym ac mae wedi derbyn adborth cadarnhaol ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth hon.

Gwefan

Sefydlodd y Brifysgol Grŵp Gorchwyl a Gorffen i oruchwylio Prosiect Cyfieithu'r Wefan. Mae'r tîm cyfathrebu wedi gweithio gyda'r adran TG i drefnu dulliau o gyfieithu cynnwys sy'n bodoli yn SIMS *en masse*. Datblygwyd offeryn sy'n caniatáu allforio tudalennau cwrs a mewforion o'r cyfieithiadau a gwblhawyd mewn swp. Mae gwaith hefyd wedi digwydd yn y Brifysgol i nodi problemau sy'n codi o Brosiect Cyfieithu'r Wefan ac i ddod o hyd i ffyrdd o hwyluso diweddariadau yn y dyfodol mewn modd dwyieithog.

Mae'r gwaith o gyfieithu cynnwys tudalennau'r cyrsiau israddedig bron wedi'i gwblhau, gyda dros 500,000 o eiriau wedi'u cyfieithu yn 2021.

Mae'r integreiddio rhwng ein gwefan a system gynnwys rheoli'r fewnrwyd (Squiz) a'r system rheoli cyfieithu wedi gwneud cyfieithu cynnwys yn haws ac mae'n cael ei ddefnyddio'n helaeth gan awduron.

Dogfennau

Crëwyd arweiniad er mwyn helpu staff i ganfod y dogfennau y mae'n rhaid iddynt fod ar gael yn ddwyieithog. Rydym wedi adnabod y ddogfennaeth safonol y mae'r Brifysgol yn ei chreu ac rydym wedi rhoi prosesau ar waith er mwyn gwneud yn siŵr eu bod ar gael yn ddwyieithog gan ddiybnu ar ddewisiadau unigol neu pryd bynnag y bo'r angen.

Tiwtoriaid Personol

Mae'r Brifysgol yn gofyn i fyfyrwyr a ydynt am gael tiwtor personol Cymraeg wrth iddynt ymrestru. Rhennir y dewisiadau hyn â'r Ysgolion,

a byddant yn neilltuo tiwtor yn ôl yr angen. Mae sawl Ysgol sydd â lefel uchel o fyfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg yn aseinio tiwtor Cymraeg iddynt yn ddiofyn.

**Arwyddion, hysbysiadau
a hysbysebion**

Mae arweiniad i staff ar gael er mwyn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y maes hwn. Mae ein hadran Gyfathrebu yn greiddiol o ran gwneud yn siŵr bod ein cyfathrebu corfforaethol a'n hysbysiadau ar gyfer digwyddiadau'n ddwyieithog.

Cyfryngau Cymdeithasol

Rydym yn darparu gwasanaeth dwyieithog ar y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer cyfrifon:

- Sydd wedi'u rheoli'n ganolog gan ein tîm Cyfathrebu (cyfrifon Corfforaethol) neu;
 - Sydd â diben penodol i ddarparu gwybodaeth am wasanaethau a fyddai'n dod o fewn cwrpas gweithgareddau Cyflenwi Gwasanaethau sydd wedi'u rhestru yn y safonau ac sy'n cynrychioli prif waith y Brifysgol ar y cyfryngau cymdeithasol.
-

Safonau Llundain Polisi

Llundain Polisi

Wrth greu Polisiâu newydd, cynnal ymgynghoriadau neu ymchwil yn ymwneud â'r Polisiâu hynny, gwneud penderfyniadau mewn perthynas â chyllid grant, neu ddatblygu neu ddiwygio cwrs, mae gofyn i'r Brifysgol ystyried yr effaith ar y Gymraeg. Mae ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cynnwys Asesiad Effaith leithyddol er mwyn gwneud yn siŵr bod materion y Gymraeg yn cael eu hystyried. Cynhelir yr asesiad hwn yn annibynnol ar y nodweddion a warchodir yn hytrach nag fel asesiad cyfannol o'r holl faterion.

I gydnabod pwysigrwydd y Safonau yn y maes hwn, mae'r Brifysgol wedi cynhyrchu canllaw i'r holl staff. Gyda chymorth rhwydwaith Hyrwyddwyr y Gymraeg, rydym wedi dechrau cyfeirio'r canllaw hwn at swyddogion a thimau sy'n debygol o gyflawni gweithgareddau a fydd yn golygu bod yn rhaid cynnal Asesiad. Dyma rai o'r welliannau yn ystod y cyfnod adrodd:

- Daeth adolygiad o'n templed Asesu'r Effaith ar y Gymraeg i'r casgliad y dylid sicrhau bod y dyletswyddau penodol o dan Safonau'r Gymraeg yn glir i'r staff sy'n eu dilyn. Rydym hefyd wedi llunio canllawiau i staff fel bod y gwaith o asesu effaith yn haws. Mae'r rhaglen sefydliadol ar gyfer cynnal asesiadau mewn ymateb i bandemig COVID wedi bod yn brawf gwirioneddol i'r templed a'r canllawiau.
- Mae ein Cofrestrfa wedi cynnal adolygiad o'u polisiâu sy'n ymwneud â chynnwys rhaglenni academaidd. Mae hyn wedi galluogi'r Brifysgol i bwysleisio bod angen ystyried y Gymraeg wrth ddiwygio cynnwys rhaglenni a'r cyfleoedd posibl i wella'r ddarpariaeth Gymraeg.

Safonau Gweithredu

Gellir darllen datganiad o gydymffurfiaeth ffurfiol y Brifysgol gyda'r Safonau Gweithredu yn nogfen [Polisi Safonau Gweithredol y Gymraeg](#).

Recriwtio

Asesir pob swydd newydd a/neu wag mewn perthynas â lefel yr hyfedredd yn y Gymraeg sydd ei hangen, a chaiff ei dosbarthu yn ôl un o'r isod:

- hyfedredd/rhuglder yn hanfodol;
- hyfedredd/rhuglder yn ddymunol;
- gofyniad i ddod yn hyfedr/rhugl;
- dim angen hyfedredd/rhuglder.

Cyhoeddir hysbysebion swyddi yn Gymraeg a Saesneg. Mae ffurflenni cais a deunyddiau recriwtio ategol ar gael yn Gymraeg ac mae unrhyw ffurflen gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ymateb Cymraeg.

Ar y ffurflen gais, rydym yn gofyn i ymgeiswyr a ydynt am gael y cyfweiliad yn Gymraeg.

Hyfforddiant Staff a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg

Mae'r modiwl gorfodol am y Gymraeg yn cynnwys adran labordy iaith sy'n rhoi lefel sylfaenol o Gymraeg i staff.

Mae Ysgol y Gymraeg, fel darparwyr y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg, yn cynnig ystod eang o gyrсияu Cymraeg trwy Dysgu Cymraeg Caerdydd. Mae ar gael i staff ar wahanol lefelau, i ddysgu neu wella eu Cymraeg, yn ystod oriau gwaith neu wedi hynny. Cyn y pandemig, cynhaliwyd y gyrсияu mewn manau amrywiol o gwmpas

Caerdydd, fel bod mynediad ar gael i ystod eang o staff a'r cyhoedd. Mae'r Ysgol wedi addasu'n gyflym i'r pandemig ac mae wedi bod yn cynnal y cyrsiau fel sesiynau rhyngweithiol rhithwir. Mae cyrsiau a gynhelir unwaith neu ddwywaith yr wythnos, yn ddyddiol neu fel bloc ar gael, yn ogystal â chysiau sy'n caniatáu i chi astudio hanner y cwrs ar-lein a'r hanner arall yn y dosbarth.

Hefyd, mae'r Brifysgol wedi neilltuo cyllideb ganolog o £20,000 y gall unrhyw aelod o staff ei defnyddio ar sail y cyntaf i'r felin. Ar ôl i'r gyllideb honno gael ei gwario, gofynnir i adrannau ac ysgolion gyllido gofynion gan eu staff am hyfforddiant yn y Gymraeg eu hunain. Gostyngwyd cost y cyrsiau i staff yn 2020, ac felly rydym yn disgwyl y bydd y gyllideb yn gallu cynnwys mwy o staff nag yn y blynyddoedd blaenorol. Darperir cyfleoedd pellach i ddysgu Cymraeg gan Dysgu Cymraeg Caerdydd trwy'r rhaglen *Cymraeg Gwaith* a ariennir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; mae'r rhain yn gyrsiau pwrpasol ar gyfer staff gyda chefnogaeth un i un fwy helaeth, wedi'u hanelu'n benodol at wella sgiliau'r rhai a allai gyfrannu at ddarpariaeth Gymraeg yn y dyfodol. Mae Dysgu Cymraeg Caerdydd yn cynnig grwpiau sgwrsio anffurfiol wythnosol i ddysgwyr ar bob lefel.

Mae Rhwydwaith Iaith Gymraeg y Staff yn cwrdd hyd at bedair gwaith bob blwyddyn academiaidd. Mae'r cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn Gymraeg ac mae'n rhoi cyfle i ddysgwyr a siaradwyr rhugl ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun mwy ffurfiol. Mae'r rhwydwaith hefyd yn cynnal pedair sesiwn sgwrsio anffurfiol unigol drwy Zoom am awr bob wythnos dros amser cinio.

Dogfennau

Fel sy'n ofynnol gan Safonau'r Gymraeg, mae dogfennau ar gael yn Gymraeg i staff ar gais.

Cwynion a Disgyblu

Gall pob aelod o staff wneud cais i ddefnyddio'r Gymraeg mewn materion yn ymwneud ag unrhyw gŵyn a godir, neu a godir yn eu herbyn. Os yw aelod o staff yn destun achos disgyblu, caiff yr unigolyn hwnnw ymateb yn Gymraeg mewn unrhyw gyfrwng.

Cwynion

Yn ystod y cyfnod adrodd, cafodd Prifysgol Caerdydd 3 cwyn ynghylch Safonau'r Gymraeg. Dosbarthwyd pob un fel cwynion o dan y safonau Cyflenwi Gwasanaethau.

Roedd pob un o'r cwynion yn ymwneud â sefydliadau trydydd parti (heb eu cwmpasu gan y safonau) yr oedd gan y Brifysgol ryw faint o rôl yn gweithio gyda nhw. Felly, ni chadarnhawyd yr un o'r cwynion.

Fodd bynnag, mewn perthynas â'r cwynion hyn, er nad oedd gofyniad cyfreithiol ar sefydliadau trydydd parti i weithredu Safonau'r Gymraeg, mae'r Brifysgol wedi manteisio ar y cyfle i gychwyn deialog gyda'r sefydliadau perthnasol ynghylch darparu deunyddiau dwyieithog fel arfer da.

Sgiliau'r Gweithlu

Dyma fanylion am staff sy'n medru'r Gymraeg yn y Brifysgol:

Sgiliau Cymraeg - Adran

	Cyfanswm Staff	Rhugl	Rhywfaint o Allu	Dim Gallu	% Rhugl / Rhywfaint o Allu
GWASANAETHAU ACADEMAIDD A CHEFNOGI MYFYRWYR	808	32	208	341	41.31%
PENSAERNIAETH	84	1	13	45	23.73%
Y CELFYDDYDAU, Y DYNIAETHAU A'R GWYDDORAU CYMDEITHASOL	79	5	30	27	56.45%
Y GWYDDORAU BIOFEDDYGOL A GWYDDORAU BYWYD	99	1	21	26	45.83%
BIOWYDDORAU	337	7	39	153	23.12%
YSGOL BUSNES CAERDYDD	328	8	35	119	26.54%
Y GYFRAITH A GWLEIDYDDIAETH CAERDYDD	216	11	40	75	40.48%
CEMEG	136	1	27	81	25.69%
CYFATHREBU A MARCHNATA	168	11	64	83	47.47%
CYFRIFIADUREG	130	3	20	98	19.01%
DEINTYDDIAETH	119	3	14	75	18.48%
DATBLYGIAD A CHYSYLLTIADAU CYNFYFYRWYR	28	2	14	12	57.14%
GWYDDORAU'R DDAEAR A'R AMGYLCHEDD	91	0	17	64	20.99%
PEIRIANNEG	322	5	57	149	29.38%
SAESNEG, CYFATHREBU AC ATHRONIAETH	100	5	29	57	37.36%
YSTADAU A CHYFLEUSTERAU CAMPWS	437	2	42	121	26.67%
CYLLID	73	0	24	48	33.33%
DAEARYDDIAETH A CHYNLLUNIO	88	1	22	53	30.26%
GWYDDORAU GOFAL IECHYD	264	13	47	112	34.88%

HANES, ARCHAEOLEG A CHREFYDD	110	3	16	43	30.65%
ADNODDAU DYNOL	79	2	25	38	41.54%
ARCHWILIO MEWNOL	3	0	2	0	100.00%
NEWYDDIADURAETH, Y CYFRYNGAU AC ASTUDIAETHAU DIWYLLIANNOL	88	2	12	40	25.93%
MATHEMATEG	68	2	14	44	26.67%
MEDDYGAETH	1177	23	195	445	32.93%
CERDDORIAETH	33	2	7	14	39.13%
OPTOMETREG A GWYDDORAU'R GOLWG	119	2	14	29	35.56%
FFERYLLIAETH A GWYDDORAU FFERYLLOL	98	4	23	37	42.19%
GWYDDORAU FFISEGOL A PHEIRIANNEG	34	2	11	18	41.94%
FFISEG A SERYDDIAETH	163	1	18	74	20.43%
SEICOLEG	201	4	26	77	28.04%
GWASANAETHAU YMCHWIL AC ARLOESED	98	3	39	54	43.75%
YSGOL IEITHOEDD MODERN	154	4	30	47	41.98%
GWYDDORAU CYMDEITHASOL	222	8	47	123	30.90%
CYNLLUNIO STRATEGOL	26	0	12	13	48.00%
TG Y BRIFYSGOL	317	9	73	162	33.61%
SWYDDFA YSGRIFENNYDD Y BRIFYSGOL	19	2	6	10	44.44%
SWYDDFA'R IS-GANGHELLOR	27	2	4	11	35.29%
CYMRAEG	79	53	1	0	100.00%
Cyfanswm	6937	239	1338	3020	34.71%

* Canran y rhai sy'n Rhugl/Rhywfaint o Allu yn seiliedig ar staff sydd wedi hunan-ddatgelu eu gallu Cymraeg ar ein system Adnoddau Dynol. Gweler y daenlen arall am gyfraddau datgelu staff.

Y Gymraeg - Cyfradd Ymateb

	Cyfanswm Cyffredinol	Dim Ymateb	Ymateb	Cyfradd Ymateb
GWASANAETHAU ACADEMAIDD A CHEFNOGI MYFYRWYR	855	225	630	73.68%
PENSAERNIAETH	85	25	60	70.59%
Y CELFYDDYDAU, Y DYNIAETHAU A'R GWYDDORAU CYMDEITHASOL	83	21	62	74.70%
Y GWYDDORAU BIOFEDDYGOL A GWYDDORAU BYWYD	102	45	57	55.88%
BIOWYDDORAU	338	138	200	59.17%
CYFLEUSTERAU CAMPWS	246	165	81	32.93%
YSGOL BUSNES CAERDYDD	335	165	170	50.75%
Y GYFRAITH A GWLEIDYDDIAETH CAERDYDD	217	83	134	61.75%
CEMEG	139	36	103	74.10%
CYFATHREBU A MARCHNATA	181	4	177	97.79%
CYFRIFIADUREG	138	16	122	88.41%
DEINTYDDIAETH	117	33	84	71.79%
DATBLYGIAD A CHYSYLLTIADAU CYNFYFYRWYR	26	1	25	96.15%
GWYDDORAU'R DDAEAR A'R AMGYLCHEDD	99	12	87	87.88%
PEIRIANNEG	314	109	205	65.29%
SAESNEG, CYFATHREBU AC ATHRONIAETH	104	8	96	92.31%
YSTADAU A CHYFLEUSTERAU CAMPWS	197	103	94	47.72%
CYLLID	72	2	70	97.22%
DAEARYDDIAETH A CHYNLLUNIO	85	12	73	85.88%
GWYDDORAU GOFAL IECHYD	264	88	176	66.67%
HANES, ARCHAEOLEG A CHREFYDD	106	45	61	57.55%
ADNODDAU DYNOL	77	14	63	81.82%
ARCHWILIO MEWNOL	3	1	2	66.67%
NEWYDDIADURAETH, Y CYFRYNGAU AC ASTUDIAETHAU DIWYLLIANNOL	99	38	61	61.62%
MATHEMATEG	74	13	61	82.43%
MEDDYGAETH	1125	470	655	58.22%
CERDDORIAETH	30	10	20	66.67%
OPTOMETREG A GWYDDORAU'R GOLWG	107	64	43	40.19%
FFERYLLIAETH A GWYDDORAU FFERYLLOL	97	38	59	60.82%

GWYDDORAU FFISEGOL A PHEIRIANNEG	33	2	31	93.94%
FFISEG A SERYDDIAETH	178	73	105	58.99%
SEICOLEG	202	98	104	51.49%
GWASANAETHAU YMCHWIL AC ARLOESED	105	7	98	93.33%
YSGOL IEITHOEDD MODERN	152	64	88	57.89%
GWYDDORAU CYMDEITHASOL	228	46	182	79.82%
CYNLLUNIO STRATEGOL	18	0	18	100.00%
TG Y BRIFYSGOL	312	79	233	74.68%
SWYDDFA YSGRIFENNYDD Y BRIFYSGOL	18	0	18	100.00%
SWYDDFA'R IS-GANGHELLOR	31	11	20	64.52%
CYMRAEG	80	27	53	66.25%
Cyfanswm	7072	2391	4681	66.19%

Cyrsiau Hyfforddiant

Gofynnir i'r Brifysgol gynnig hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg yn y meysydd canlynol, os cynigir y fath hyfforddiant yn Saesneg:

- recriwtio a chyfweld;
- rheoli perfformiad;
- gweithdrefnau cwyno a disgyblu
- ymsefydlu;
- ymdrin â'r cyhoedd;
- iechyd a diogelwch.

Pan fydd aelod o staff yn archebu lle ar y cwrs, anfonir e-bost atynt i roi gwybod am eu hawl i gael y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, a sut mae gwneud cais am hyn. Ar hyn o bryd, nid yw'r Brifysgol yn cynnig hyfforddiant am weithdrefnau cwyno a disgyblu (yn Saesneg nac yn Gymraeg).

Gofynnodd (a chafodd) y nifer canlynol o staff hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd hwn:

Enw'r cwrs	Ceisiadau/darparu cyfieithu ar y pryd	Canran y staff (%)
Hanfodion Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd	0	0
Rheoli Perfformiad	0	0
Perfformiad o ran Monitro'r Gymraeg	0	0
Cynefino - Gwasanaethau Proffesiynol a staff Academaidd ac Ymchwil	0	0
Sgiliau ar gyfer recriwtio a dethol	0	0
Sgiliau Cymraeg ar gyfer recriwtio a dethol	0	0
Asesiad o Sgrîn Arddangos	0	0
Codi a Chario	0	0
Profion dyfeisiau cludadwy	0	0

Gofal Cwsmeriaid	0	0
Rhagoriaeth Rheoli Gwasanaeth Cwsmeriaid	0	0

Swyddi a Hysbysebwyd

Gofynnir i'r Brifysgol adrodd am nifer y swyddi a hysbysebwyd lle roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol. Cafodd y nifer canlynol o swyddi eu hysbysebu gyda'r Gymraeg yn hanfodol yn ystod y cyfnod adrodd:

Nifer y swyddi a hysbysebwyd*	Nifer y rhai a recriwtiwyd i'r swyddi hynny*	Nifer y siaradwyr Cymraeg a recriwtiwyd	% y swyddi hynny a gafodd siaradwr Cymraeg
42	54	35	65%

*Rhwyng Awst 2021 a Gorffennaf 2021, hysbysebwyd 42 o swyddi a oedd yn nodi bod y Gymraeg yn faen prawf Hanfodol. Yn y 42 swydd a hysbysebwyd, gwnaed 102 o rolau ar gael i recriwtio iddynt. Gwnaeth Prifysgol Caerdydd 54 o benodiadau, gyda 35 ohonynt yn siarad Cymraeg. Mewn perthynas â'r gwahaniaeth rhwng 'Nifer y swyddi a hysbysebwyd' a'r 'Nifer a recriwtiwyd i'r swyddi hynny' dylid nodi'r canlynol:

- Bydd 'Nifer y swyddi a hysbysebwyd' yn cynnwys rhai swyddi yr oedd y Brifysgol wedi methu â recriwtio iddynt yn wreiddiol, cyn mynd ymlaen i ail-hysbysebu a recriwtio'n llwyddiannus yn ystod yr un flwyddyn galendr.

Mewn perthynas â'r gwahaniaeth rhwng y 'Nifer a recriwtiwyd i'r swyddi hynny' a 'Nifer y siaradwyr Cymraeg a recriwtiwyd', dylid nodi'r canlynol:

- bydd y data hwn yn cynrychioli sefyllfaoedd lle mae'r Brifysgol wedi hysbysebu sawl swydd debyg iawn, a dim ond nifer penodol yr oedd gofyn fod ganddynt sgiliau Cymraeg.
- Mae'r data ar gyfer 'Nifer y siaradwyr Cymraeg a recriwtiwyd' yn dod o'n system Adnoddau Dynol, sy'n ddibynnol ar fod siaradwyr Cymraeg yn datgelu eu gallu i siarad Cymraeg. Mae'n bosib bod rhai ymgeiswyr llwyddiannus wedi dangos gallu digonol o ran siarad Cymraeg i gael eu cyflogi, ond nad ydynt wedi datgelu eu gallu ar y system Adnoddau Dynol o reidrwydd.
- Bydd rhai swyddi wedi cael eu hysbysebu gyda gofyniad i ddod yn hyfedr/rhugl, ond mae'n bosib nad yw'r ymgeiswyr llwyddiannus yn yr achosion hyn yn teimlo bod ganddynt ddigon o allu i ddatgan eu bod yn siaradwr Cymraeg.